

NOSC 2026 RHIF 5

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Llansanffraid i Gylchfan
Brynich, Aberhonddu, Powys)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr
a Cherddwyr Dros Dro)
2026

Gwnaed 19 Ionawr 2026

Yn dod I rym 27 Ionawr 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llansanffraid i Gylchfan Brynich Aberhonddu, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ionawr 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

NWSI 2026 NO. 5

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 Trunk Road
(Llansantffraed to Brynich
Roundabout, Brecon, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists and Pedestrians)
Order 2026

Made 19 January 2026

Coming into force 27 January 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Llansantffraed to Brynich Roundabout, Brecon, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2026 and this Order comes into force on 27 January 2026.

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 27 Ionawr 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri sy’n ymestyn o’i chyffordd â ffordd sirol yr U0530 yn Llansanffraid hyd at ei chyffordd â Chylchfan Brynich, Aberhonddu, yn Sir Powys.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

19 Ionawr 2026

N HUNTER

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road that extends from its junction with the U0530 county road at Llansantffraed to its junction with Brynich Roundabout, Brecon, in the County of Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 27 January 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for North Wales and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

19 January 2026

N HUNTER

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government